# Adroddiad Blynyddol Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Y Cynghorydd R M Shaw** **Ward: Pontycymer**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2020**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Fe'm hetholwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Pontycymer** ar 8 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i lawer o bwyllgorau a chyrff allanol.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi **501** o ymholiadau gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelod sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal. Mae hyn wedi cynnwys nifer o gyfarfodydd gydag Aelod o'r Senedd, Aelod Seneddol ac unigolion a sefydliadau eraill y tu allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** i'w gweld drwy ddefnyddio'r ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaethol** (uchafswm o 200 gair)
Rwy'n Gynghorydd Sir ymgysylltiol iawn ac wedi ymateb i anghenion fy etholwyr gyda sawl rôl ychwanegol. Er enghraifft:

- Sefydlais yr elusen leol Calon y Cwm a fu'n weithgar iawn yn y cwm
- Sefydlais y clwb ieuenctid annibynnol cyntaf yn y cwm, gyda hyd at 60 o bobl ifanc yn mynychu fesul sesiwn
- Trefnais gyllid treial ar gyfer clwb ieuenctid hŷn sy'n gofalu am hyd at 40 o bobl ifanc rhwng 12 a 17 oed yn y cwm bob sesiwn.
- Rwy'n helpu i redeg Canolfan Gymunedol William Trigg i sicrhau bod lle cymunedol yn cael ei gynnal
- Sefydlais sawl grŵp ar gyfer casglu sbwriel a glanhau sbwriel yn ogystal â sesiwn wirfoddoli fisol ar Lwybr Cwm Garw
- Rwyf wedi cysylltu â nifer o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol yn y cwm a'u cynorthwyo.

- Bydd llawer yn cofio'r gwaith o lanhau ac ail-baentio llochesi bws ym Mhontycymer!

Mae'r holl weithgareddau hyn, wrth gwrs, yn ychwanegol at y gwaith rwy'n ei wneud fel eich Cynghorydd Sir.

**<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>** (uchafswm o 200 gair)
Mae fy record ar ran trigolion Pontycymer yn dda; Rwyf wedi cyfeirio dros 500 o achosion i'r awdurdod lleol, y mae llawer ohonynt yn achosion cymhleth iawn ac yn galw am ryngweithio rhwng adrannau ac asiantaethau eraill. Mewn nifer yn unig, gosododd y record hon fi ar frig rhyngweithiadau Cynghorwyr Sir ar ran etholwyr.

Nid oes angen dweud fy mod yn eiriolwr cryf dros y cwm ac rwyf wedi meithrin enw da am ddycnwch a her. Roeddwn yn arbennig o falch o nodi bod yr elusen Calon y Cwm yng Nghwm Garw ar y rhestr fer ac, yn y pen draw, yn ail yng Nghategori Arloesedd Gwobrau Ysbrydoli am Oes.

Wrth gwrs, mae COVID wedi dod â newid mawr ac rwy'n falch o adrodd fy mod wedi gallu rhyngweithio â chymaint o grwpiau bach yng Nghwm Garw sydd wedi cyfrannu at yr achos. Mae'r rhain wedi amrywio o bartïon stryd - gan godi calonnau ac arian i wobrwyo'r gweithwyr allweddol hynny, cynhyrchu masgiau wyneb gartref, darparu cynhaliaeth i holl weithwyr cartrefi gofal yn y sir - ac nid yn y cwm yn unig. Roedd yn galonogol pan lwyddais i sicrhau swm bach o arian i gefnogi'r grwpiau lleol hyn i wneud cymaint o waith da gyda chydnabyddiaeth neu wobr arall.

Rwy'n hynod falch o'r ysbryd cymunedol a'r natur ofalgar y mae'r rhain, a grwpiau ac unigolion eraill, wedi'i harddangos.

Fel cenedl, nid ydym wedi profi pandemig ers canrif. Mae fy atgof arhosol o eleni o'r ysbryd yn y cwm mewn cyfnod o argyfwng. Rwy'n ddiolchgar iawn o gael y fraint o gynrychioli ward fel Pontycymer.

**<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>** (uchafswm o 100 gair)
Yn ogystal â'm dyletswyddau ward a chynrychioliadau, rwyf wedi eistedd ar chwe phwyllgor, tri phanel, gan graffu ar bolisïau a phenderfyniadau'r awdurdod lleol.

Rwy'n Gynrychiolydd Sirol i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, ac yn aelod o ddau is-bwyllgor, yn ogystal â bod yn Gynrychiolydd Sirol y Gymdeithas Diriogaethol Cynorthwyol a Gwirfoddolwyr Wrth Gefn (*Territorial Auxiliary and Volunteer Reserve Association*).

Rwyf ar hyn o bryd yn aelod o Bwyllgorau Craffu a Chraffu Corfforaethol, sy'n rhan bwysig o rôl unrhyw gynghorydd sy'n dymuno dwyn y weinyddiaeth i gyfrif. Rwyf hefyd yn aelod o Banel Gwerthuso Cyfrifoldeb y Gyllideb ac yn Cadeirio'r Panel Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| |
|---|
| Gofynnwyd i mi, a chytunais, i eistedd ar Banel Adfer COVID Trawsbleidiol y Sir. |
| **Y Cynghorydd R M Shaw** **Dyddiad: 12 Hydref 2020** |